**PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**13 MEDI 2017**

# ADRODDIAD GWYBODAETH GAN Y PENNAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD

## Y DIWEDDARAF AR APELIADAU CYNLLUNIO

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

Mae'r eitem hon yn rhoi gwybodaeth i'r aelodau am benderfyniadau apêl diweddar a gafwyd gan yr Arolygiaeth Gynllunio ar achosion yn y Sir. Mae'n ymwneud â'r cyfnod un flwyddyn o fis Medi 2016 hyd y dyddiad presennol.

Bydd adroddiadau yn y dyfodol yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor bob chwe mis.

## 2. CYNNWYS

Mae **Atodiad A** ynghlwm yn cynnwys tabl fel arweiniad sydyn sy'n rhestru'r penderfyniadau apêl a gafwyd yn y cyfnod hwn, gyda gwybodaeth sylfaenol gan gynnwys y canlyniad, math o apêl, a chyfraniad gan y Pwyllgor Cynllunio a'r Cynghorau Tref a Chymuned.

Mae **Atodiad B** yn rhoi crynodeb / adolygiad o'r pwyntiau allweddol sy'n berthnasol i bob achos.

Os yw'r Aelodau yn dymuno darllen fersiynau llawn penderfyniadau'r Arolygydd Cynllunio ar yr apeliadau, gellir gweld y rhain ar wefan Sir Ddinbych (Cynllunio; *Dod o hyd i gais cynllunio; (rhowch rif y cais); Chwilio; Dogfennau; Penderfyniad Apêl.*
http://planning.denbighshire.gov.uk/Planning/lg/plansearch.page?org.apache.shale.dialog.DIALOG_NAME=gfplanningsearch&Param=lg.Planning

## 3. ARGYMHELLIAD

Derbyn yr adroddiad er gwybodaeth.